

Vaughan Gething
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Llywodraeth Cymru

8 Medi 2017

Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Annwyl Vaughan,


Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wrthi'n cynnal ymchwiliad i **'Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc'**. Bydd yr ymchwiliad yn ystyried a yw'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ar y trywydd iawn i sicrhau'r newid sylweddol sydd ei angen ym maes gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glaswed (CAMHS).

Byddwn, wrth gwrs, yn eich gwahodd yn ffurfiol i roi tystiolaeth lafar ar ddiwedd yr ymchwiliad, a byddwn yn ysgrifennu atoch am hyn maes o law. Bryd hynny, byddwn yn gofyn am bapur ffurfiol i helpu i lywio'r sesiwn honno. Cyn cynnal ein sesiynau tystiolaeth lafar, gallai'r Pwyllgor hefyd ofyn i chi roi'r diweddaraf am bob llinyn o'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â hyn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth ganlynol i helpu i lywio trafodaethau cychwynol yr ymchwiliad.

- A allwch chi gadarnhau pryd y bydd y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn dod i ben yn ffurfiol?
- A fydddech cystal â chyflwyno papur yn amlinellu sut y caiff cyfrifoldebau ar gyfer CAMHS eu rhannu ar draws portffolios y Cabinet, ac esbonio sut rydych chi, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn rheoli'r cyfrifoldebau hynny?

Rwy'n edrych ymlaen at weld eich ymateb cynnar.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

